OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2008 Rhif 2687 (Cy.237)

CREDYDAU TRETH, CYMRU

Cynllun Credydau Treth (Cymeradwyo Darparwyr Gofal Plant) (Cymru) (Diwygio) 2008

Gwnaed - - - -	*8 Hydref 2008*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*10 Hydref 2008*
Yn dod i rym - -	*3 Tachwedd 2008*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod priodol o dan adran 12(6) o Ddeddf Credydau Treth 2002(**1**), yn gwneud y diwygiadau a ganlyn i'r Cynllun Credydau Treth (Cymeradwyo Darparwyr Gofal Plant) (Cymru) 2007(**2**) drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 12(5), (7) ac (8) a 65(3) a (9) o'r Ddeddf honno(**3**) ac ar ôl ymgynghori â'r Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd (**4**).

Enwi a chychwyn

1.—(1) Enw'r offeryn hwn yw Cynllun Credydau Treth (Cymeradwyo Darparwyr Gofal Plant) (Cymru) (Diwygio) 2008 a daw i rym ar 3 Tachwedd 2008.

2. Mae'r offeryn hwn yn gymwys o ran Cymru.

Diwygio Cynllun Credydau Treth (Cymeradwyo Darparwyr Gofal Plant) (Cymru) 2007

3.—(1) Diwygir Cynllun Credydau Treth (Cymeradwyo Darparwyr Gofal Plant) (Cymru) 2007 fel a ganlyn.

(2) Yn erthygl 2 (Diffiniadau) —

(a) hepgorer y diffiniadau o "y Rheoliadau Tribiwnlys" ac "y Tribiwnlys";

(b) mewnosoder y diffiniadau a ganlyn yn y mannau priodol yn nhrefn yr wyddor—

(**1**) 2002 p.21.
(**2**) O.S. 2007/226 (Cy.20).
(**3**) Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adrannau 12(5), (7) ac (8) a 65(3) a (9) o Ddeddf Credydau Treth 2002 i Weinidogion Cymru drwy weithrediad paragraff 30 o Atodlen 11 i Deddf Llywodraeth Cymru 2006.
(**4**) Deddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodi 2007, Atodlen 7, paragraff 24.